# Adroddiad Annibynnol Oedran Pensiwn y Wladwriaeth – Cais am Dystiolaeth

## 1. Cyflwyniad gan y Farwnes Neville-Rolfe DBE CMG

1.1 Mae oedran hawl i Bensiwn y Wladwriaeth wedi amrywio dros amser ac ar hyn o bryd fe'i pennir yn 66 oed ar gyfer dynion a menywod. Mae *Deddf Pensiynau 2014* yn gosod gofyniad statudol i adolygu’r rheolau ynghylch oedran pensiwn bob 6 blynedd, i helpu i sicrhau bod costau hirhoedledd cynyddol yn cael eu rhannu’n deg rhwng y cenedlaethau, ac i roi mwy o eglurder ynghylch sut y bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn newid yn y dyfodol.

1.2 Gofynnwyd i mi baratoi Adroddiad Annibynnol yn gwneud argymhellion i'r Llywodraeth ar ba fetrigau y dylid eu hystyried wrth osod yr oedran hawl i oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol. Mae’r Cylch Gorchwyl ar gyfer fy adroddiad wedi’i nodi ym mharagraff 4.

1.3 Mae’r Cais hwn am Dystiolaeth yn rhan bwysig o gam casglu tystiolaeth fy adroddiad. Bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn effeithio ar y rhan fwyaf o ddinasyddion ar ryw adeg yn eu bywydau ac rwyf am i ystod mor eang â phosibl o bobl gael y cyfle i gyfrannu. Byddwn yn annog unrhyw un sydd â diddordeb i roi eu barn i mi ar y pwnc pwysig hwn drwy ymateb i’r cwestiynau a nodir isod.

1.4 Croesawaf dystiolaeth gan aelodau o'r cyhoedd o bob oed a phawb sydd â diddordeb. Rwy'n sylweddoli y bydd arbenigwyr ym meysydd hirhoedledd a heneiddio, pobl hŷn a’r farchnad lafur, tegwch rhwng cenedlaethau a’r heriau cyllidol sy’n gysylltiedig â phoblogaeth sy’n heneiddio a fydd â diddordeb arbennig.

## 2. Cyd-destun

2.1 Rydym wedi gosod gwybodaeth gefndir a allai fod yn ddefnyddiol i chi ei darllen cyn ateb y cwestiynau yn yr adran nesaf:

- Mae hanes Pensiwn y Wladwriaeth ym mharagraffau 5.1-5.7;
- Mae tueddiadau mewn Demograffeg ym mharagraffau 6.1-**6.11**;
- Mae tueddiadau'r Farchnad Lafur ym mharagraffau 7.1-7.5; a
- Mae tueddiadau mewn gwariant Pensiwn y Wladwriaeth ym mharagraffau 8.1-**8.10**.

## 3. Cwestiynau

### 3.1 Tegwch Rhwng Cenedlaethau:

- Gan fod pobl yn byw'n hirach, sut mae sicrhau bod costau Pensiwn y Wladwriaeth yn cael eu rhannu'n deg ar draws cenedlaethau?

- Pa ffactorau sy'n ymwneud â thegwch rhwng cenedlaethau y dylid eu hystyried wrth bennu oedran Pensiwn y Wladwriaeth?

- A yw'n rhesymol rhoi cyfnod penodol o rybudd i bobl ar gyfer newidiadau oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ac os felly pa gyfnod?

**3.2. Newidiadau yn Natur y Gwaith:**

- Sut mae newidiadau i'r mathau o swyddi y mae pobl yn eu gwneud wedi effeithio ar fywydau gwaith?

- Beth yw'r newidiadau a ragwelir i'r gweithle yn y dyfodol? Sut gallai hyn effeithio ar fywydau gwaith pobl?

- Pa ffactorau mae pobl yn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â phryd i ymddeol?

**3.3 Cynaliadwyedd a Fforddiadwyedd:**

- Beth yw'r ffordd fwyaf cynaliadwy a fforddiadwy o reoli cost Pensiwn y Wladwriaeth yn y tymor hir? Beth yw manteision ac anfanteision opsiynau posibl?

**3.4 Metrigau ar gyfer pennu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth**

- A yw'n rhesymol i bobl ddisgwyl treulio cyfran benodol o'u bywyd fel oedolyn yn cael Pensiwn y Wladwriaeth?

- A oes opsiynau ar gyfer ystyried gwahaniaethau mewn amgylchiadau wrth bennu oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol? Beth yw manteision ac anfanteision yr opsiynau hyn, a sut y gallent weithredu o fewn y fframwaith pensiynau presennol?

- Beth yw'r ffordd orau i ni ystyried sensitifrwydd yr amcanestyniadau ynghylch disgwyliad oes wrth ystyried oedran Pensiwn y Wladwriaeth priodol ar gyfer y dyfodol?

- A oes metrigau eraill sy'n berthnasol neu'n fwy addas i helpu i bennu oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol, ac os felly, pa fetrigau?

- Pa ffactorau y mae gwledydd eraill yn eu hystyried wrth bennu oedran Pensiwn y Wladwriaeth?

**3.5. Gwybodaeth Ychwanegol**

- A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yn ymwneud â Chylch Gorchwyl yr adolygiad hwn yr hoffech eu rhannu?

# 4. Cylch Gorchwyl

**<u>Ail adolygiad o oedran Pensiwn y Wladwriaeth: cylch gorchwyl adroddiad annibynnol</u>**

### 1. Pwrpas

1.1. Mae Deddf Pensiynau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r llywodraeth gynnal adolygiad cyfnodol o oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Bydd yr adroddiad annibynnol ar ffactorau penodol eraill (adroddiad annibynnol) yn darparu tystiolaeth i lywio'r Adolygiad hwnnw.

### 2. Cyd-destun

2.1. Fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth sy'n llywio adolygiad y llywodraeth o oedran Pensiwn y Wladwriaeth, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gomisiynu dau adroddiad. Mae rhain yn:

- adroddiad gan Actiwari'r Llywodraeth sy'n darparu dadansoddiad o'r rhagamcaniadau disgwyliad oes diweddaraf gan ddefnyddio cyfrannau penodedig o fywyd oedolyn dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth

- adroddiad ar ffactorau eraill y mae yn eu hystyried yn berthnasol – mae'r cylch gorchwyl ar gyfer yr olaf wedi'i nodi isod.

### 3. Cwmpas

3.1. Dylai'r adroddiad annibynnol archwilio pa fetrigau y dylai'r llywodraeth eu hystyried wrth ystyried sut i bennu oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Dylai gynnwys y ffactorau canlynol:

- ystyriaeth o dueddiadau diweddar mewn disgwyliad oes ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig

- a yw'n dal yn iawn i gael cyfran sefydlog o fywyd oedolyn y dylai pobl, ar gyfartaledd, ddisgwyl gwario dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth?

- pa fetrigau fyddai'n galluogi costau Pensiwn y Wladwriaeth, a phwysigrwydd rhannu'r rhain yn deg rhwng cenedlaethau, i gael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau oedran Pensiwn y Wladwriaeth?

- pa fetrigau ychwanegol neu amgen fyddai'n briodol i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch oedran Pensiwn y Wladwriaeth?

3.2. Wrth gynnal dadansoddiad a dod i gasgliadau, dylai'r adroddiad annibynnol roi sylw i gynaliadwyedd a fforddiadwyedd hirdymor Pensiwn y Wladwriaeth a safbwyntiau sefydliadau, unigolion, a phartïon eraill â diddordeb.

3.3. Disgwylir i adolygiad y llywodraeth ystyried ystod o dystiolaeth gan gynnwys: disgwyliad oes, materion economaidd-gymdeithasol a fforddiadwyedd a

chynaliadwyedd Pensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol. Ni ddisgwylir i'r adroddiad annibynnol gwmpasu cwestiynau sy'n ymwneud â strwythur Pensiwn y Wladwriaeth gan gynnwys, er enghraifft, sut y caiff Pensiwn y Wladwriaeth ei uwchraddio.

## 4. Beth ellir eu cyflawni

4.1. Bydd y llywodraeth yn ystyried y canfyddiadau fel rhan o'i hadolygiad o oedran Pensiwn y Wladwriaeth, felly, rhaid cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion sy'n dod i'r amlwg i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar ddyddiad i'w bennu gan y Gweinidog dros Bensiynau a Chynhwysiant Ariannol a'r Ysgrifennydd Gwladol. Cyfrifoldeb y person a benodir i gyflawni'r gwaith yn unig yw cynnwys yr adroddiad annibynnol a bydd ganddo'r gair olaf ar yr holl allbynnau ac argymhellion allweddol. Yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn penderfynu ar amseriad a dull cyhoeddi'r adroddiad annibynnol.

# 5. Hanes, Ariannu a Chydraddoliad Pensiwn y Wladwriaeth

## Hanes Pensiwn y Wladwriaeth

5.1 Cyflwynwyd pensiynau henoed a delir gan y wladwriaeth am y tro cyntaf yn y DU ym 1909 o dan *Ddeddf Pensiynau Henoed 1908*, a oedd yn darparu ar gyfer pensiynau prawf modd i ddynion a menywod dros 70 oed. Cyflwynwyd pensiynau cyfrannol am y tro cyntaf gan *Ddeddf Pensiynau Cyfrannol Gweddwon, Plant Amddifad a Henoed 1925*. Roedd y ddeddfwriaeth hon yn darparu ar gyfer talu pensiwn cyfradd unffurf i bob pensiynwr dros 65 oed, wedi'i ariannu o gyfraniadau gan y cyflogwr, y cyflogai a'r wladwriaeth.

5.2 Gostyngwyd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i fenywod i 60 gan *Ddeddf Pensiynau Henoed a Gweddwon 1940*, tra bod oedran pensiwn dynion yn parhau ar 65. Fel yr eglurwyd yn y Papur Gwyrdd a gyhoeddwyd cyn cyflwyno *Deddf Pensiynau 1995*, roedd yr anghydraddoldeb newydd hwn yn ymateb i ymgyrch gan fenywod di-briod yn y 1930au, llawer ohonynt yn gofalu am berthnasau dibynnol am y rhan fwyaf o'u bywydau. Roedd hefyd yn cydnabod y ffaith bod menywod priod, ar gyfartaledd, sawl blwyddyn yn iau na'u gwŷr.

## Ariannu Pensiwn y Wladwriaeth

5.3 Cyflwynwyd Pensiwn y Wladwriaeth, yn y ffurf y mae heddiw, fel rhan o becyn o fesurau yn sefydlu'r wladwriaeth les fodern a ddilynodd yr Ail Ryfel Byd. Sefydlwyd y cynllun YG modern gan *Ddeddf Yswiriant Gwladol 1946* i ddarparu budd-daliadau diweithdra, budd-dal salwch, pensiynau ymddeol a budd-daliadau eraill mewn achosion lle bodlonwyd rhai amodau. Roedd gweithwyr a'u cyflogwyr yn talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ("CYG") i Gronfa Yswiriant Gwladol ("Cronfa YG") a byddai budd-daliadau yn cael eu talu allan o'r gronfa ar sail "talu-wrth-fynd" (h.y. cyfraniadau eleni yn ariannu budd-daliadau eleni).

5.4 Mae cynllun YG yn parhau i fodoli ar y ffurf hon i raddau helaeth heddiw. Telir CYG i Gronfa YG (ac eithrio tua 20% o'r derbyniadau a ddefnyddir i ariannu'r GIG). Defnyddir y cyfraniadau a delir i Gronfa YG i ariannu budd-daliadau cyfrannol, gan gynnwys Pensiwn y Wladwriaeth, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau, Budd-daliadau Profedigaeth a Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau. Er bod enwau budd-daliadau unigol wedi newid dros amser, mae'r egwyddor sylfaenol y bydd y system YG yn cwmpasu pobl am gyfnodau o salwch a diweithdra ac yn darparu pensiwn sylfaenol wedi bod yn nodwedd o'r system nawdd cymdeithasol ers dros 70 mlynedd.

5.5 I'r sawl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth o 6 Ebrill 2016, mae Pensiwn Newydd y Wladwriaeth yn gymwys yn lle hen bensiwn y wladwriaeth. Mae'r system newydd hon wedi'i symleiddio'n fawr ac mae'n talu budd-dal cyfradd unffurf yn seiliedig ar gofnod YG unigolyn. Gellir derbyn swm llawn y budd-dal ar ôl 35 o flynyddoedd cymhwyso YG (gyda threfniadau trosiannol ar waith i gydnabod cofnodion YG cyn 2016).

**Newidiadau oedran Pensiwn y Wladwriaeth**

5.6 Fel y nodir uchod, gostyngodd *Deddf Pensiynau Henoed a Gweddwon 1940* oedran Pensiwn y Wladwriaeth) i fenywod i 60 a'i gadw ar 65 i ddynion. Ni wnaethpwyd unrhyw newid i'r oedran y daeth pobl â hawl i Bensiwn y Wladwriaeth am ddegawdau lawer. Mae newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth wedi'u deddfu yn *Neddf Pensiynau 1995, Deddf Pensiynau 2007, Deddf Pensiynau 2011 a Deddf Pensiynau 2014.* Roedd Deddf Pensiynau 1995 yn cydraddoli oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ddynion a merched yn 65 oed. Sefydlwyd y Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau yn 2002 gyda'r mandad o adolygu gweithrediad system Pensiynau'r DU a gwneud argymhellion ar gyfer diwygio. Darparodd Deddf 2007 ragolwg ar gyfer oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer y 30 mlynedd nesaf. Gosododd Deddf Pensiynau 2014 ofyniad statudol i adolygu'r rheolau ynghylch oedran pensiwn bob 6 blynedd a chyhoeddwyd yr Adroddiad Annibynnol cyntaf, a gynhaliwyd gan John Cridland CBE, ar 23 Mawrth 2017.

5.7 Gellir crynhoi'r sefyllfa o ran newidiadau oedran Pensiwn y Wladwriaeth hanesyddol a chynnydd yn y dyfodol a nodir mewn deddfwriaeth erbyn dyddiadau mynediad ar ffurf tabl fel a ganlyn:

| Dyddiad geni | Oedran Pensiwn y Wladwriaeth |
|---|---|
| Dyn a aned cyn 6 Rhagfyr 1953 | 65 |
| Menyw a aned cyn 6 Ebrill 1950 | 60 |
| Menyw a aned rhwng 6 Ebrill 1950 a 5 Rhagfyr 1953 | Rhwng 60 a 65 oed, yn cynyddu'n gynyddrannol fesul mis geni |
| Ganwyd rhwng 6 Rhagfyr 1953 a 5 Hydref 1954 (y ddau ryw) | Rhwng 65 a 66 oed, yn cynyddu'n gynyddrannol fesul mis geni |
| Ganwyd rhwng 6 Hydref 1954 a 5 Ebrill 1960 | 66 |
| Ganwyd rhwng 6 Ebrill 1960 a 5 Mawrth 1961 | Rhwng 66 a 67 oed, yn cynyddu'n gynyddrannol fesul mis geni |
| Ganwyd rhwng 6 Mawrth 1961 a 5 Ebrill 1977 | 67 |
| Ganwyd rhwng 6 Ebrill 1977 a 5 Ebrill 1978 | Rhwng 67 a 68 oed, yn cynyddu'n gynyddrannol fesul mis geni |
| Ganwyd 6 Ebrill 1978 ac yn ddiweddarach | 68 |

## 6. Tueddiadau mewn Disgwyliad Oes

6.1 Mae’r adran hon yn nodi, ar gyfartaledd, pa mor hir y gellir disgwyl i bobl yn y DU fyw gan ddefnyddio dau fesuriad o ddisgwyliad oes:

- Disgwyliad oes ar sail carfan yw nifer cyfartalog y blynyddoedd ychwanegol y byddai person yn eu byw o ystyried newidiadau tybiedig yn y dyfodol mewn marwolaethau ar gyfer eu carfan dros weddill eu hoes[1]. Mae’r ystadegau hyn yn cael eu diweddaru bob dwy flynedd a’r rhagamcanion ar sail 2020 yw’r data[2]. Diweddaraf sydd ar gael. Fodd bynnag, disgwylir i ddiweddariad seiliedig ar 2021 gael ei ryddhau yn ystod 2023 i gyfrif am Gyfrifiad 2021[3].

- Disgwyliad oes ar sail cyfnod yw nifer cyfartalog y blynyddoedd ychwanegol y byddai person yn byw pe bai’n profi cyfraddau marwolaeth oed-benodol yr ardal benodol a’r cyfnod amser am weddill ei oes.

6.2. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) sy’n cynhyrchu’r ystadegau hyn. Mae’r ONS yn ystyried disgwyliad oes ar sail carfan yn fesur mwy priodol o ba mor hir y byddai disgwyl i berson o oedran penodol fyw ar gyfartaledd na’r mesur[4] ar sail cyfnod.

6.3. Mae’r mesurau hyn yn gyfartaleddau ac mae amrywiad sylweddol yn ôl daearyddiaeth, amddifadedd a ffactorau eraill. Dim ond trwy ddefnyddio mesur mwy gronynnog sy’n seiliedig ar gyfnod y gellir asesu disgwyliad oes yn erbyn y nodweddion hyn. Ar wahân, mae’r ONS yn cynhyrchu amcangyfrifon o ddisgwyliad oes iach – amcangyfrif o’r oes a dreulir mewn iechyd “da iawn” neu “dda”, yn seiliedig ar sut mae unigolion yn canfod eu hiechyd cyffredinol.

6.4. Mae’r ONS hefyd yn cynhyrchu rhagamcanion o boblogaeth y DU a ddefnyddir i asesu nifer y bobl dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth a chymarebau dibyniaeth gwahanol, megis y gymhareb dibyniaeth ar henaint, yn y blynyddoedd i ddod. Mae’r ystadegau hyn yn cael eu diweddaru bob 2 flynedd a’r rhagamcanion ar sail 2020 yw’r data diweddaraf sydd ar gael. [5]

### 6.5 Disgwyliad Oes yn 65 oed

6.5. Mae disgwyliad oes yn 65 oed yn cynyddu. Mae rhagamcaniadau disgwyliad oes carfan diweddaraf seiliedig ar 2020 yn dangos:

- Rhagwelir y bydd disgwyliad oes dynion wedi cynyddu i 84.9 mlynedd yn 2022 – i fyny 5.9 mlynedd o 1981. Erbyn 2047 rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu 2.2 mlynedd arall i 87.1.

[1] Canllaw i ddehongli tablau bywyd cyfnod a charfanau yn y gorffennol a’r rhagamcan - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[2] Tablau bywyd cyfnod a charfanau yn y gorffennol a’r rhagamcan - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[3] National population projections, subnational population projections and household projections for England – future plans - Office for National Statistics
[4] Esboniad o ddisgwyliad oes y cyfnod a’r garfan: Rhagfyr 2019 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[5] Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol l


- Rhagamcenir y bydd disgwyliad oes menywod wedi cynyddu i 87.2 o flynyddoedd – i fyny 4.2 mlynedd o 1981. Erbyn 2047 rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu 2.1 mlynedd arall i 89.3.

6.6 Er bod disgwyliad oes carfan yn cynyddu, mae'r gwelliannau hyn yn is na'r cynnydd a ragwelir o ddatganiadau data blaenorol. Mae Ffigur 1 yn dangos y duedd o ran disgwyliad oes carfanau gwrywaidd yn 65 oed ac mae Ffigur 2 yn dangos y duedd o ran disgwyliad oes cohort benywaidd yn 65 oed, gan ddefnyddio rhagamcanion 2014 a 2020 fel ei gilydd. Mae'r graffiau hyn yn dangos:


- Gan ddefnyddio rhagamcaniadau disgwyliad oes carfan seiliedig ar 2014, rhagamcanwyd y byddai dyn 65 oed yn 2047 yn byw tan ei fod yn 89.9 oed, o gymharu â 87.1 o flynyddoedd yn y rhagamcanion yn seiliedig ar 2020.

- Ar gyfer menywod, y disgwyliad oes carfan rhagamcanol o berson 65 oed yn 2047 oedd 91.9 mlynedd gan ddefnyddio'r rhagamcanion seiliedig ar 2014, ac 89.3 mlynedd yn y rhagamcanion diweddar ar sail 2020.

**Ffigur 1: Disgwyliad Oes Carfan Gwryw yn 65 oed, y DU (rhagamcanion seiliedig ar 2014, rhagamcanion seiliedig ar 2020)**




**Ffigur 2: Disgwyliad Oes Carfan Merched yn 65 oed, y DU (rhagamcanion seiliedig ar 2014, rhagamcanion seiliedig ar 2020)**




6.7 Yn gyffredinol, mae gan y rhai 65 oed yng ngogledd y DU ddisgwyliadau oes is na’r rhai sy’n byw yn ne’r DU. Mae Disgwyliadau Oes pobl 65 oed ar eu huchaf yn Lloegr ac ar eu hisaf yn yr Alban.

- Gan ddefnyddio’r mesur disgwyliad oes ar sail cyfnod, canfuwyd y disgwyliad oes mwyaf yn 65 oed yn 2018-20 yn ne-ddwyrain Lloegr, de-orllewin Lloegr, Llundain a dwyrain Lloegr.

- Roedd disgwyliad oes ar sail cyfnod yn 65 oed yn 2018-20 ar ei isaf yn yr Alban a gogledd Lloegr ar gyfer y ddau ryw.

- Gan ddefnyddio data disgwyliad oes carfan seiliedig ar 2020, rhagwelir y bydd gwrywod 65 oed a hŷn yn Lloegr yn byw i fod yn 85.1 oed yn 2022. Mae hyn yn hirach na Gogledd Iwerddon (84.6 oed), Cymru (84.4 oed) a’r Alban (83.8 oed).

- Rhagwelir y bydd menywod 65 oed a throsodd yn Lloegr yn byw i fod yn 87.4 oed. Mae hyn yn hirach na Gogledd Iwerddon (86.9 oed), Cymru (86.8 oed) a’r Alban (85.9 oed).


**Disgwyliad Oes adeg Geni**

6.8 Mae disgwyliad oes ar enedigaeth hefyd yn cynyddu, er ei fod yn dilyn patrwm tebyg o welliannau is na’r rhai a ragwelwyd ar adeg yr Adolygiad o Bensiynau’r Wladwriaeth. Mae Ffigurau 3 a 4 yn dangos y tueddiadau yn y rhagamcaniadau disgwyliad oes carfan seiliedig ar 2014 a 2020 ar gyfer gwrywod a benywod yn y drefn honno. Mae’r siartiau hyn yn dangos:


- Rhagwelir y bydd bechgyn newydd-anedig yn byw i fod yn 87.6 oed yn 2022 – cynnydd o 6.1 mlynedd ers 1981. Erbyn 2047 rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu 2.7 mlynedd arall i 90.3. Mae hyn yn is na’r disgwyliad oes rhagamcanol ar sail 2014 ar gyfer bachgen newydd-anedig yn 2047 o 95.0.

- Rhagwelir y bydd menywod newydd-anedig yn byw i fod yn 90.4 oed yn 2022 – cynnydd o 4.9 mlynedd ers 1981. Erbyn 2047 rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu 2.4 blynedd arall i 92.8. Mae hyn yn is na’r disgwyliad oes rhagamcanol ar sail 2014 ar gyfer merch newydd-anedig yn 2047 o 97.6.

**Ffigur 3: Disgwyliad Oes Carfan Gwryw adeg geni, y DU (rhagamcanion seiliedig ar 2014, rhagamcanion seiliedig ar 2020)**




**Ffigur 4: Disgwyliad Oes Carfan Merched adeg geni, y DU (rhagamcanion seiliedig ar 2014, rhagamcanion seiliedig ar 2020)**




6.9 Ar gyfartaledd, gall babanod yn ne'r DU ddisgwyl disgwyliad oes hirach na'r rhai yng ngogledd y DU. Mae Disgwyliadau Oes babanod newydd-anedig ar eu huchaf yn Lloegr ac ar eu hisaf yn yr Alban.

- Gan ddefnyddio'r mesur disgwyliad oes ar sail cyfnod, roedd y disgwyliad oes uchaf adeg geni yn 2018-20 yn ne-ddwyrain Lloegr, de-orllewin Lloegr, Llundain a dwyrain Lloegr a'r isaf yn yr Alban a gogledd Lloegr.

- Gan ddefnyddio data disgwyliad oes carfan seiliedig ar 2020, rhagwelir y bydd bechgyn newydd-anedig yn Lloegr yn 2022 yn byw i fod yn 87.8 oed. Mae hyn yn hirach na Gogledd Iwerddon (87 oed), Cymru (86.9 oed) a'r Alban (85.7 oed).

- Yn 2022, rhagwelir y bydd menywod newydd-anedig yn Lloegr yn byw i fod yn 90.6 oed. Mae hyn yn hirach na Gogledd Iwerddon (90 oed), Cymru (89.9 oed) a'r Alban (88.7 oed).


**Nifer y Bobl Hŷn**

6.10 Mae pobl yn byw bywydau hirach.

- Disgwylir i nifer y bobl o oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu hŷn dyfu 24% dros  y 25 mlynedd nesaf, o 12.1 miliwn o bobl yn 2022 i 15.1 miliwn yn 2047.

- Disgwylir i nifer y bobl 85 oed a hŷn bron ddyblu dros y 25 mlynedd nesaf, gan godi o 1.7 miliwn o bobl yn 2022 i 3.3 miliwn erbyn 2047.

**Ffigur 5: Rhagamcan o nifer y bobl 85 oed neu hŷn, y DU (rhagamcanion seiliedig ar 2020).**




6.11. Mae'r cynnydd yn nifer y bobl dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth, a bywydau cynyddol hirach, yn golygu y rhagwelir y bydd nifer y pensiynwyr fesul 1,000 o bobl oedran gweithio yn codi o 284 yn 2022 i 337 yn 2047.

## 7. Tueddiadau'r Farchnad Lafur

7.1 Mae newidiadau i gyflogaeth, patrymau gwaith, y mathau o swyddi y mae pobl yn eu gwneud a chyfartaledd oedran ymddeol yn ystyriaethau pwysig wrth bennu oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'r adran hon yn amlinellu tueddiadau yn y ffactorau hyn.

### 7.2 Tueddiadau mewn cyflogaeth

- Dros ddegawdau, bu cyfranogiad cynyddol yn y farchnad lafur gyda chynnydd amlwg ymhlith y rhai sydd agosaf at oedran Pensiwn y Wladwriaeth.
    - Mae'r ystadegau diweddaraf[6] sydd ar gael yn dangos mai cyfradd cyflogaeth pobl ifanc 16-64 oed yn y DU yn y tri mis hyd at fis Tachwedd 2021 oedd 75.5% (31.2 miliwn o bobl). Yn y tri mis hyd at fis Mawrth 1971, roedd y gyfradd cyflogaeth yn 72.2%, gyda 24.2 miliwn yn cael eu cyflogi.
    - Roedd y gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl 50 i 64 oed yn 70.8% yn y tri mis hyd at fis Tachwedd 2021 (9.2 miliwn o bobl) yn gynyddol gyson yn ystod canol y 1990au o tua 55.5% (4.9 miliwn o bobl) yn y tri mis hyd at Ionawr 1993[7].
    - Mae'r duedd ar i fyny mewn cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl 50 i 64 oed dros y 25 mlynedd diwethaf wedi'i sbarduno gan gynnydd mewn cyflogaeth amser llawn a rhan-amser.
    - Fodd bynnag, ers y pandemig COVID, mae cyfraddau a lefelau diweithdra ac anweithgarwch ar gyfer pobl 50-64 oed wedi cynyddu, gyda chyfraddau anweithgarwch yn y tri mis hyd at fis Tachwedd 2021 bellach ar eu huchaf ers dechrau 2017.
    - Mae cyfran y bobl ifanc 16-24 oed mewn addysg amser llawn wedi cynyddu o 26% yn y tri mis hyd at fis Mai 1992 i 47% yn y tri mis hyd at fis Tachwedd 2021.

### 7.3 Cyfranogiad Menywod yn y Farchnad Lafur

- Mae cyfran y menywod mewn gwaith wedi cynyddu'n raddol dros amser, o 52.8% yn y tri mis hyd at fis Mawrth 1971 i 72.2% yn y tri mis hyd at fis Tachwedd 2021. Er bod cyfranogiad dynion wedi parhau'n uwch, disgynnodd o uchafbwynt o 92.1% i 78.8 % yn yr un misoedd.
- Mae menywod rhwng 50 a 64 oed yn llawer mwy tebygol na dynion o'r un oedran o fod mewn cyflogaeth ran-amser.

---

[6] A01: Crynodeb o ystadegau'r farchnad lafur - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk) (ons.gov.uk)

[7] A05 SA: Cyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn ôl grŵp oedran (wedi'i addasu'n dymhorol) - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

### 7.4 Newidiadau yn y math o gyflogaeth

- Mae'r mathau o ddiwydiant y cyflogir gweithwyr ynddynt wedi bod yn newid dros amser, gyda gweithwyr yn bennaf yn awr yn y sector gwasanaethau.

- Ers 1978, mae cyfran y bobl a gyflogir yn y sector gweithgynhyrchu wedi gostwng o tua 25% i tua 7% heddiw. Dros yr un cyfnod, tyfodd cyflogaeth yn y sector gwasanaethau o 63% i 84%.

### 7.5 Oedran Gadael o'r Farchnad Lafur ar gyfartaledd[8]

- Yr oedran i fenywod ymddeol ar gyfartaledd yn 1950 oedd 63.9 oed. Gostyngodd a chyrhaeddodd ei bwynt isaf ym 1986 yn 60.3 oed cyn cynyddu 3.7 mlynedd i 64.0 oed yn 2021.

- Ar gyfer dynion, yr oedran ymadael ar gyfartaledd yn 1950 oedd 67.2 oed. Gostyngodd a chyrhaeddodd 63 oed yn 1996 cyn cynyddu 2.1 mlynedd i 65.1 oed yn 2021.

## 8. Tueddiadau yng Ngwariant Pensiwn y Wladwriaeth

8.1. Mae'r atodiad hwn yn amlinellu'r gwariant hanesyddol, presennol[9] a'r gwariant a ragwelir yn y dyfodol[10] ar Bensiynau'r Wladwriaeth.

### Gwariant Hanesyddol ar Bensiynau'r Wladwriaeth[11]

8.2. Mae gwariant Pensiwn y Wladwriaeth wedi bod yn cynyddu mewn termau arian ers sawl degawd.

8.3. Roedd cyfran y GDP a wariwyd ar Bensiynau'r Wladwriaeth yn weddol wastad yn ystod y 1990au tan ddiwedd y 2000au – rhwng 3.3 a 3.7 y cant o GDP. Cafodd y costau o niferoedd cynyddol o bensiynwyr eu gwrthbwyso'n fras gan dwf arafach yn nyfarniad Pensiwn y Wladwriaeth cyfartalog na'r GDP fesul oedolyn.

8.4. Ers hynny, mae twf cymharol araf mewn GDP, ynghyd â chynnydd parhaus yn nifer y pensiynwyr ac uwchraddio mwy hael i bensiynau drwy'r Clo Triphlyg wedi cynyddu costau Pensiynau'r Wladwriaeth ymhellach fel cyfran o'r GDP.

---

[8] Statws marchnad lafur economaidd unigolion 50 oed a hŷn, tueddiadau dros amser: Medi 2021 - GOV.UK (www.gov.uk))

[9] Tablau gwariant budd-daliadau a llwyth achosion 2021 - GOV.UK (www.gov.uk

[10] Adroddiad cynaliadwyedd cyllidol – Gorffennaf 2020 – Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (obr.uk)

[11] Gwariant lles: pensiwn y wladwriaeth - Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (obr.uk

**Gwariant Cyfredol ar Bensiynau'r Wladwriaeth, a Budd-daliadau Pensiynwyr**

8.5. Rhagwelir y bydd Adran Gwaith a Phensiynau yn gwario dros £129bn ar fudd-daliadau i bensiynwyr ym Mhrydain Fawr yn 2021/22. Mae hyn yn cynnwys Pensiwn y Wladwriaeth y rhagwelir y bydd bron i £105bn y flwyddyn honno.

**Newidiadau a Ragwelir i Wariant Pensiwn y Wladwriaeth**

8.6. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn darparu rhagolygon o wariant Pensiwn y Wladwriaeth, fel cyfran o'r GDP fel rhan o'i Hadroddiad Cynaliadwyedd Cyllidol, a gyhoeddir bob 2 flynedd.

8.7. Mae'r rhagolygon hyn yn dangos y rhagwelir y bydd gwariant Pensiwn y Wladwriaeth yn codi'n sylweddol dros y 50 mlynedd nesaf. Mae'r rhagolwg diweddaraf sydd ar gael gan yr OBR, a gyhoeddwyd yn Haf 2020 yn dangos y rhagwelir y bydd gwariant ar Bensiynau'r Wladwriaeth yn codi o 4.8% o GDP yn 2021/22 i 6.2% yn 2049/50. Daw'r cynnydd hwn er gwaethaf y cynnydd sydd wedi'i ddeddfu ar hyn o bryd i oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

## 9. Rhyddid gwybodaeth

9.1. Mae'n bosibl y bydd angen trosglwyddo'r wybodaeth y byddwch yn ei hanfon atom i swyddogion yn Adran Gwaith a Phensiynau, ei chyhoeddi mewn crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd a chyfeirir atynt yn yr adroddiad cyhoeddedig. Gall yr holl wybodaeth sydd yn eich ymateb, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu os gofynnir amdani o dan *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000*. Drwy ddarparu gwybodaeth bersonol at ddibenion y Cais am Dystiolaeth, deellir eich bod yn cydsynio i'w datgelu a chyhoeddi. Os nad yw hyn yn wir, dylech gyfyngu ar unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir, neu ei dileu yn gyfan gwbl. Os ydych am i'r wybodaeth yn eich ymateb i'r Cais am Dystiolaeth gael ei chadw'n gyfrinachol, dylech esbonio pam fel rhan o'ch ymateb, er na allwn warantu y byddwn yn gwneud hyn.

9.2. I ddarganfod mwy am egwyddorion cyffredinol Rhyddid Gwybodaeth a sut mae'n cael ei gymhwyso o fewn DWP, cysylltwch â'r Tîm Rhyddid Gwybodaeth Canolog: E-bost: freedom-of-information-request@dwp.gov.uk

9.3. Ni all y tîm Rhyddid Gwybodaeth Canolog roi cyngor ar ymarferion ymgynghori penodol, dim ond ar faterion Rhyddid Gwybodaeth. Darllenwch fwy am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

## 10. Sut i ymateb

Dylai ymatebwyr deimlo'n rhydd i ateb cymaint neu gyn lleied o gwestiynau ag y dymunant. Ni ddylent deimlo bod yn rhaid iddynt wneud sylwadau ar bob maes ond yn hytrach i ganolbwyntio ar ble mae ganddynt sylfaen dystiolaeth gref ar gyfer eu hymateb. Wrth ymateb i gwestiwn, dylech:

- rhoi manylion
- cyfeirio at unrhyw ffynonellau data a darparu tystiolaeth lle bo modd
- cadw ymatebion mor gryno â phosibl

Anfonwch ymatebion ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost hwn:
ind.statepensionagereview@dwp.gov.uk

Os na fyddwch yn gallu defnyddio dulliau cyfathrebu digidol, postiwch ymatebion ysgrifenedig i'r cyfeiriad hwn:

State Pension age review – Independent report
1st Floor, Caxton House
Tothill Street
London
SW1H 9NA

## 11. Dyddiad cau ar gyfer ymatebion

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau ysgrifenedig yw 25 Ebrill 2022.